**Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol**
**HWLG(3)-13-10-p4: 8 Gorffenaf 2010**

# Diweddariad Ysgrifenedig – Mawrth 2010

## Caniatâd Tybiedig

**Argymhelliad**
**Na ddylai'r Cynulliad, ar hyn o bryd, geisio Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol er mwyn cyflwyno system o ganiatâd tybiedig yng Nghymru.**

Y Sefyllfa Gyfredol: Mawrth 2010
Yn yr ymateb yr anfonais atoch ynghynt, dywedais ei bod yn rhy fuan i ymwrthod yn bendant â'r posibilrwydd o gyflwyno cais am Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol.

I geisio barn y cyhoedd cynhaliodd Llywodraeth Cynulliad Cymru nifer o drafodaethau cyhoeddus ar y mater hwn rhwng mis Hydref 2008 a mis Ionawr 2009. Daeth yn glir mai dewis y cyhoedd fyddai naill ai system dewis peidio â rhoi neu system dewis gorfodol yn hytrach na pharhau â'r system bresennol.

Ar 8 Mai, cyhoeddais y papur, 'Options for changes to the organ donation system in Wales', gan lansio ymgynghoriad 12 wythnos. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cefnogi'r syniad o newid y system rhoi organau yng Nghymru i system feddal o'r fath. Cyhoeddwyd adroddiad ar yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth y Cynulliad, sef: http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/reports/organdonation/?skip=1&lang=cy

Ar 18 Rhagfyr, cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig y Cabinet yn datgan bod fy nghyd-aelodau o'r Cabinet wedi cytuno â'm cynnig i edrych ar y posibilrwydd o sefydlu system feddal yng Nghymru o ddewis peidio â rhoi organau ac i gyflwyno cais am Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol fel rhan o'r chwiliad blynyddol am eitemau deddfwriaethol. Bellach rwyf wedi cyflwyno cynnig am y chwiliad blynyddol ar gyfer rhaglen ddeddfwriaethol 2010-11 ac mae fy swyddogion yn dechrau'r broses o edrych yn fanwl ar oblygiadau polisi a chyfreithiol system feddal yng Nghymru o ddewis peidio â rhoi organau.

**Argymhelliad**
**Dylid defnyddio system "feddal", lle yr ymgynghorir ag anwyliaid ac ystyrir eu barn, mewn unrhyw ystyriaeth fanwl o ddeddfwriaeth i gyflwyno caniatâd tybiedig yng Nghymru neu yn y DU.**

Y Sefyllfa Gyfredol: Mawrth 2010
Fel y nodwyd uchod, ystyrir system feddal o ddewis peidio â rhoi organau.

## Materion yn ymwneud â chapasiti

**Argymhelliad**

**Mewn disgwyliad am ragor o organau'n cael eu rhoi yn sgil argymhellion Tasglu Rhoi Organau'r DU, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu capasiti trawsblaniadau yng Nghymru i weld a oes modd cyfiawnhau ehangiad pellach. Dylai unrhyw adolygiad ystyried hyfywedd posibl cyfleusterau sydd wedi'u lleoli'n rhanbarthol yn ogystal â Chaerdydd.**

Y Sefyllfa Gyfredol: Mawrth 2010

Mae gwaith eisoes ar y gweill i greu Canolfan Trawsblannu Arennau bwrpasol werth £4.2 miliwn yn Ysbyty Athrofaol Caerdydd. Ariennir y Ganolfan gan Lywodraeth y Cynulliad, a bydd yn cynyddu'r gallu presennol o 90 y flwyddyn i hyd at 160 erbyn 2012 ac yn gwella ansawdd bywyd cleifion arennol yn fawr.

Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i adolygu'r capasiti trawsblannu. Fodd bynnag, oherwydd màs critigol y nifer sydd ei angen i fod yn rhan o weithdrefn drawsblannu er mwyn sicrhau arfer clinigol diogel, bydd cleifion Cymru sydd angen trawsblaniad nad yw'n drawsblaniad aren a phlant y mae angen trawsblaniad arnynt yn parhau i fynd i ganolfannau arbenigol yn Lloegr i gael triniaeth o'r fath hyd y gellir rhagweld.

**Argymhelliad**

**Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried cynyddu nifer y gwelyau uned gofal dwys yng Nghymru er mwyn helpu i gynyddu nifer yr organau sydd ar gael ar gyfer trawsblaniadau ochr yn ochr â goblygiadau ehangach gwneud hyn.**

Y Sefyllfa Gyfredol: Mawrth 2010

Nid oeddwn yn credu mai cynyddu nifer y gwelyau mewn Unedau Gofal Dwys yw'r ateb ar gyfer cynyddu nifer y rhai sy'n rhoi organau.

Hoffai'r Pwyllgor nodi, fodd bynnag, fod y tri Rhwydwaith Gofal Critigol wedi adolygu'r capasiti cyfredol a'r anghenion yng Nghymru yn y dyfodol. Mae Byrddau Iechyd Lleol wrthi'n cymryd camau ar ganlyniadau ac argymhellion yr adolygiad hwn. Bydd cynyddu capasiti gofal critigol yng Nghymru yn parhau i gael ei ystyried yn rhan o'r gwaith parhaus ar wella gwasanaethau gofal critigol a chyfraddau rhoi organau fel ei gilydd.

**Argymhelliad**

**I'r graddau y mae'n gyfrifol am hynny, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithredu argymhellion y Tasglu yn llawn yng Nghymru fel mater o frys.**

Y Sefyllfa Gyfredol: Mawrth 2010

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi mynegi ei chefnogaeth i Argymhellion Tasglu'r DU ac mae Grŵp Gweithredu Rhoi Organau Cymru wedi'i sefydlu i gadw llygad ar y broses o roi'r argymhellion hynny ar waith. Mae cynnydd ynghylch yr argymhellion yn cael ei fonitro yn ofalus a hyd yma mae:

- Byrddau Iechyd Lleol wedi sefydlu Pwyllgorau Rhoi Organau ac wedi penodi Swyddogion Arweiniol Clinigol ym maes Rhoi Organau
- Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG wedi cryfhau rhwydwaith cydgysylltwyr trawsblaniadau a bellach mae cydgysylltwyr trawsblaniadau ym mhob Bwrdd Iechyd Lleol sy'n rhan o dîm Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG a reolir yn ganolog

Rwy'n dyrannu £1.5 miliwn ychwanegol o 2010-11 i roi argymhellion y Tasglu ar waith a chefnogi gwaith Grŵp Gweithredu Rhoi Organau Cymru.

**Argymhelliad**
**Bod Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau bod rhaglen hyfforddi gynhwysfawr yn cael ei datblygu i wneud y gwelliannau y mae eu hangen i'r hyfforddiant fel bod gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd yn sicrhau bod argymhellion y Tasglu yn cael eu gweithredu'n gywir.**

Y Sefyllfa Gyfredol: Mawrth 2010
Mae Grŵp Gweithredu Rhoi Organau Cymru ynghyd â Bwrdd Cyflenwi Rhaglen Rhoi Organau'r DU yn datblygu rhaglenni hyfforddi i ddiwallu anghenion gweithwyr proffesiynol iechyd.

## Materion gweithredol

**Argymhelliad**
**Bod Llywodraeth y Cynulliad yn enwi UK Transplant (UKT) fel corff y mae'n ofynnol iddo baratoi Cynllun Iaith Gymraeg o dan Ddeddf Iaith Gymraeg 1993.**

Y Sefyllfa Gyfredol: Mawrth 2010
Fel y dywedais yn fy ymateb gwreiddiol, mae Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG, y mae UK Transplant (Cyfarwyddiaeth Rhoi a Thrawsblannu Organau bellach) yn isadran weithredol ohono, wedi'i restru fel corff cyhoeddus o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Mae ganddo Gynllun Iaith Gymraeg a luniwyd mewn cydweithrediad â Bwrdd yr Iaith.

**Argymhelliad**
**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu, gyda UKT, sut y mae'n gweithredu er mwyn sicrhau bod ganddi ganolbwynt amlwg yng Nghymru ac ar faterion sy'n benodol i Gymru.**

Y Sefyllfa Gyfredol: Mawrth 2010
Rwyf wedi'i gwneud yn ofynnol i Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG fod yn aelod o Grŵp Gweithredu Rhoi Organau Cymru drwy'r Gyfarwyddiaeth Rhoi a Thrawsblannu Organau i sicrhau trafodaeth barhaus ynghylch sut bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn gweithredu yng Nghymru.

**Argymhelliad**
**Dylai Llywodraeth y Cynulliad adolygu ei chyfraniad ariannol i UKT er mwyn sicrhau bod cyllid wedi'i alinio â gwasanaethau a ddarperir i ddiwallu anghenion Cymru.**

Y Sefyllfa Gyfredol: Mawrth 2010
Comisiynais ddadansoddiad cost a budd ar gyfer cyllid a roddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG i gynnal y Gyfarwyddiaeth Rhoi a Thrawsblannu Organau. Daeth y dadansoddiad cost a budd i'r casgliad fod y gwasanaeth yn rhoi gwerth da am arian.

O ganlyniad, penderfynais barhau i ariannu'r gwasanaethau y mae Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG wedi'u darparu yn y gorffennol a dyrannwyd £577,400 yn 2008/9 a £593,280 yn 2009/10. Byddaf hefyd yn rhoi cyllid ychwanegol i'w gefnogi i roi Argymhellion Tasglu Rhoi Organau'r DU ar waith. Rwy'n aros am weld dadansoddiad o'r gofynion ariannu cyn dyrannu adnoddau.

## Codi Ymwybyddiaeth y Cyhoedd

**Argymhelliad**

**Bod Llywodraeth y Cynulliad yn cynnal gwerthusiad llawn o'r ymgyrch cyhoeddusrwydd *Dywed wrth rywun agos* gyda'r nod o naill ai ehangu'r ymgyrch neu ei datblygu drwy raglen gyson o ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth y cyhoedd.**

Y Sefyllfa Gyfredol: Mawrth 2010

Hyd yma rwyf wedi rhoi cyfanswm o £206,273 i ariannu tri cham yr ymgyrch *Rhodd Cymru*. Ers i'r ymgyrch ddechrau yn 2008, mae nifer y bobl yng Nghymru ar Gofrestr Rhoi Organau'r DU wedi cynyddu i dros 810,000. Sefydliad Arennau Cymru sy'n cynnal yr ymgyrch hon ac mae'n paratoi adroddiadau gwerthuso ffurfiol imi'u hystyried ynghylch yr ymgyrchoedd a gynhaliwyd hyd yma.

Mae Grŵp Gweithredu Rhoi Organau Cymru yn datblygu Strategaeth Gyfathrebu Cymru Gyfan ynghylch Rhoi Organau, a bydd codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ymuno â Chofrestr Rhoi Organau'r DU yn rhan bwysig o'r strategaeth hon. Bydd gwerthusiad o ymgyrchoedd hysbysebu *Rhodd Cymru* a'r rheini a gynhaliwyd gan Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn llywio'r strategaeth.

**Argymhelliad**

**Dylid rhoi sylw penodol i anghenion cymunedau lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru mewn ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd yn y dyfodol a sut y gellir gwella'r gyfradd rhoi organau ymhlith lleiafrifoedd ethnig.**

Y Sefyllfa Gyfredol: Mawrth 2010

Mae Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn parhau i gynnal ymgyrchoedd sy'n targedu'n benodol grwpiau lleiafrifoedd ethnig ac rwyf wedi gofyn bod Sefydliad Arennau Cymru'n talu sylw arbennig at hyn wrth werthuso'r ymgyrchoedd *Rhodd Cymru* a gynhaliwyd hyd yma ac wrth baratoi cynigion ar gyfer ymgyrchoedd yn y dyfodol.

**Argymhelliad**

**Bod Llywodraeth y Cynulliad yn archwilio sut y gall cyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru roi cyhoeddusrwydd i'r Gofrestr Rhoi Organau a Chardiau Rhoddwyr yn eu gwaith pob dydd, yn cynnwys y posibilrwydd o ychwanegu linc amlwg i wefan y Gofrestr Rhoi Organau ar eu gwefannau.**

Y Sefyllfa Gyfredol: Mawrth 2010

Mae Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG a Sefydliad Arennau Cymru wedi rhoi cynnig ar gynifer o gysylltiadau â phosibl fel rhan o'u hymgyrchoedd hysbysebu. Mae Rhodd Cymru wedi gweithio gyda nifer o gyrff cyhoeddus gan gynnwys llywodraeth leol, Heddlu Gwent a Chymdeithas Fferylliaeth Gymunedol. Mae Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn cynnal nifer o fentrau llwyddiannus yn y sector cyhoeddus i annog aelodau o'r cyhoedd i gofrestru i fod yn rhoddwr organau gyda'r DVLA, Swyddfa Basbort a chynllun Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC).